

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Cyfnod Allweddol 2

Gweithgaredd 2a: Pwy fyddwn ni'n siarad â nhw?

Amcan Dysgu

Helpu i ddatblygu sgiliau ymchwilio a chynllunio.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau

- Cyflwyno
- Cyfathrebu

Trefniadaeth

- Cynllunio
- Ymchwil – deall yr amgylchedd

Gweithgareddau dysgu

Trafodwch y syniadau am fenter a gafodd eu creu yng Ngweithgaredd 1.

Gofynnwch y cwestiwn “Pwy allen ni ei holi i ddysgu mwy am ein syniad menter?”.

Trafodwch wahodd cynrychiolydd o fenter/busnes lleol i ymweld â'r ysgol.

Mewn grwpiau, gan ddefnyddio cyfeiriaduron lleol, gwefannau, papurau newydd, map o'r ardal leol ac ati, mae'r disgyblion yn ymchwilio i fentrau lleol sy'n berthnasol i'w syniad prosiect nhw o fewn eu hardal.

Mae'r grwpiau'n cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth ac mae penderfyniad dosbarth yn cael ei wneud am ba fenter/busnes lleol i'w wahodd.

Mae'r disgyblion yn ysgrifennu llythyron gwahodd a/neu yn gwneud galwad ffôn i'r fenter sydd wedi ei dewis i drefnu ymwelydd.

Mae gan Prospects Cazbah swyddogion Ymgysylltu Partneriaeth a fydd efallai'n gallu cynorthwyo'r ysgol i gysylltu â busnes lleol.

Mae'r disgyblion yn defnyddio canfyddiadau eu hymchwil i baratoi cwestiynau i'w gofyn i'r ymwelydd.

Gweithgaredd 2a: Pwy fyddwn ni'n siarad â nhw?

Cyfnod Allweddol 2

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn dechrau datblygu sgiliau ymchwilio a chynllunio syml.

Adnoddau mae eu hangen

- Map o'r ardal leol
- Cyfeiriaduron lleol
- Papurau newydd
- Gwefannau

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

1. Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

Llythrennedd

Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau;

- Siarad
- Gwranddo
- Cydweithredu a thrafod.

Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

- Trefnu syniadau a gwybodaeth
- Ysgrifennu'n gywir.

Darllen ar draws y cwricwlwm

- Lleoli, dehol a defnyddio gwybodaeth
- Ymateb i'r hyn sydd wedi cael ei ddarllen.

2. ABCh

- Deall yr amrediad o swyddi mae pobl yn eu gwneud yn eu cymuned.

3. Daeryddiaeth

- Astudio eu hardal leol.

4. Cwricwlwm Cymreig

